# Public Health Wales statement on Novel Coronavirus (COVID- ) outbreak

**This statement will be updated daily at pm**

*Updated: : pm Monday July*

Dr Giri Shankar, Incident Director for the Novel Coronavirus (COVID-19) outbreak response at Public Health Wales, said:

"Starting today (Monday 6 July), the requirement to stay local has been lifted by the Welsh Government. Also, people from two separate households are now permitted to join together to form one exclusive extended household, and this includes people who are shielding.

"We all have a vital role in preventing the spread of Coronavirus by always sticking to social distancing guidelines â€" that's staying two metres away from others and washing hands regularly. You should also avoid car sharing with people outside your household.

"The news from Llangefni and the outbreak associated with the *2 Sisters* meat processing plant has been consistently positive for a number of days. As the employer resumes operations at the plant, the multi-agency Outbreak Control Team has been reassured by the rigour and robust processes the *2 Sisters* management and workforce have put in place to create a safe working environment.

"We are heartened by the positive response from the workforce and the wider communities of Anglesey and Gwynedd. Their support for the testing, contact tracing and isolation phase of our response has helped bring the outbreak rapidly under control.

"Thanks to the combined efforts of local people, the respective councils, health board and wider agencies, the testing phase of the outbreak is now completed, and cases associated and in the wider community have reduced to background levels.

"Additionally the employer, *2 Sisters Food Group*, has confirmed that any untested members of its workforce will not be allowed to return to work at the plant until they have completed a Coronavirus test.

"I am satisfied that the level of infection present in the community as a whole is low. Provided that members of the public continue to follow recommended social distancing, hand hygiene and self-isolation if they experience the symptoms of Coronavirus, then I hope to be able to draw the formal outbreak to a close in the near future.

"The multi-agency team managing the outbreak of Coronavirus associated with Rowan Foods Ltd in Wrexham has recorded 289 cases. There continues to be no evidence that this outbreak is factory-based, and the results we have identified are what we would expect to see when a focused testing takes place.

"Following the Incident Management Team meeting on Friday 3 July, the total number of positive case identified at the *Kepak Merthyr* meat processing plant is 135 since April.

"Focused testing as part of the management of clusters and outbreaks of Coronavirus will inevitably identify new cases, but this does not mean that there has been a significant increase in the level of infection in the community. If we look at other data such as hospital admissions or bio surveillance indicators, there is no evidence of a big surge of infections in the wider community in Merthyr.

"It is too early to draw precise conclusions, but our monitoring does show a historic correlation between levels of infection in the plant and previous background levels of infection in the wider community. There is no evidence to suggest any ongoing transmission in the plant.

"The Incident Management Team's investigations are continuing. No outbreak has been declared but all necessary investigations and control measures are being undertaken.

"The Food Standards Agency advise that it is very unlikely that you can catch coronavirus from food. Coronavirus is a respiratory illness. It is not known to be transmitted by exposure to food or food packaging.

"Contact tracing continues in Wales as part of the Welsh Government's *Test, Trace, Protect* strategy. Anyone who has a positive Coronavirus test will be contacted by a team of contact tracers, and asked for details of everyone they have had close contact with while they have had symptoms.

“Please keep a note of your activities so you can easily remember your whereabouts on a given day, along with who you were in contact with.

“If you are asked to self-isolate, you should also comply with this request to prevent further spread of the virus.

“Tracers are trained staff and personal information that you provide will handled in line with data protection regulations and will not be shared widely.

“Information about the symptoms of Coronavirus is available on the Public Health Wales website, or members of the public can use the NHS Wales symptom checker.

“Anyone experiencing Coronavirus symptoms can apply for a home testing kit by visiting www.gov.wales/coronavirus, or by calling the national 119 phone service.

“Anyone with suspected coronavirus should not go to a GP surgery, pharmacy or hospital. They should only contact NHS 111 if they feel they cannot cope with their symptoms at home, their condition gets worse, or their symptoms do not get better after seven days.

“Only call 999 if you are experiencing a life-threatening emergency, do not call 999 just because you are on hold to 111. We appreciate that 111 lines are busy, but you will get through after a wait.”

***Diweddarwyd: : yp Dydd Llun Gorffennaf***

Dywedodd Dr Giri Shankar, Cyfarwyddwr Digwyddiad ar gyfer yr ymateb i'r achos o'r Coronafeirws Newydd (COVID-19) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru:

“Gan ddechrau heddiw (dydd Llun 6 Gorffennaf), mae’r gofyniad i aros yn lleol wedi’i godi gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, caniateir bellach i bobl o ddau gartref ar wahân ymuno i ffurfio un cartref estynedig unigryw, ac mae hyn yn cynnwys pobl sy'n gwarchod eu hunain.

“Mae gan bob un ohonom rôl bwysig i’w chwarae wrth atal lledaeniad Coronafeirws trwy lynu wrth ganllawiau cadw pellter cymdeithasol bob amser – hynny yw, sicrhau eich bod yn cadw dau fetr oddi wrth bobl eraill a golchi eich dwylo yn rheolaidd. Dylech hefyd osgoi rhannu ceir â phobl y tu allan i'ch cartref.

“Mae’r newyddion o Langefni a’r achosion sy’n gysylltiedig â ffatri prosesu cig *2 Sisters* wedi bod yn gadarnhaol am nifer o ddyddiau. Wrth i'r cyflogwr ailafael yn y gwaith yn y ffatri, mae'r prosesau trylwyr a chadarn y mae rheolwyr a gweithlu ffatri *2 Sisters* wedi'u rhoi ar waith i greu amgylchedd gwaith diogel wedi rhoi hyder i’r Tîm Rheoli Achosion Aml-asiantaeth.

"Mae’n galondid inni weld yr ymateb cadarnhaol gan y gweithlu a'r gymuned ehangach yn Ynys Môn a Gwynedd. Mae eu cefnogaeth i gyfnod profi, olrhain cysylltiadau ac ynysu ein hymateb wedi helpu i ddod â'r achosion o dan reolaeth yn gyflym.

“Diolch i ymdrechion pobl leol, y cynghorau priodol, y bwrdd iechyd ac asiantaethau ehangach, mae cyfnod profi’r achosion bellach wedi’i gwblhau, ac mae achosion sy’n gysylltiedig â’r rhai yn y gymuned ehangach wedi gostwng i lefelau isel.

“Yn ogystal, mae'r cyflogwr, *2 Sisters Food Group*, wedi cadarnhau na fydd unrhyw aelodau o'i weithlu sydd heb gael eu profi yn cael dychwelyd i'r gwaith nes eu bod wedi cael prawf Coronafeirws.

“Rwy’n fodlon bod nifer yr achosion o’r haint sy’n bresennol yn y gymuned gyfan yn isel. Cyhyd â bod aelodau'r cyhoedd yn parhau i ddilyn y rheolau cadw pellter cymdeithasol, hylendid dwylo a hunanynysu argymelledig os oes ganddynt symptomau Coronafeirws, yna gobeithiaf allu dod â'r achos ffurfiol hwn i ben yn y dyfodol agos.

“Mae’r tîm aml-asiantaeth sy’n rheoli’r achosion o Coronafeirws sy’n gysylltiedig â Rowan Foods Ltd yn Wrecsam wedi cofnodi 289 o achosion. Nid oes tystiolaeth o hyd mai ffatri yw tarddiad yr achos hwn, a'r canlyniadau a nodwyd gennym yw'r hyn y byddem yn disgwyl ei weld pan fydd profi â ffocws yn digwydd.

“Yn dilyn cyfarfod y Tîm Rheoli Digwyddiadau ddydd Gwener 3 Gorffennaf, cyfanswm yr achosion positif a nodwyd yn ffatri prosesu cig *Kepak Merthyr* yw 135 ers mis Ebrill.

“Mae'n anochel y bydd profi â ffocws fel rhan o reoli clystyrau ac achosion o Coronafeirws yn nodi achosion newydd, ond nid yw hyn yn golygu y bu cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion yn y gymuned. Os edrychwn ar ddarnau eraill o ddata, megis derbyniadau i'r ysbyty neu ddangosyddion bio-oruchwylio, nid oes tystiolaeth o ymchwydd mawr o bobl sydd wedi’u heintio yn y gymuned ehangach ym Merthyr.

“Mae'n rhy gynnar i ddod i gasgliadau manwl gywir, ond mae ein monitro'n dangos cydberthynas hanesyddol rhwng lefel yr haint ar y safle a lefel blaenorol yr haint yn y gymuned ehangach. Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod trosglwyddiad parhaus yn digwydd ar y safle.

“Mae ymchwiliadau’r Tîm Rheoli Digwyddiadau yn parhau. Ni ddatganwyd bod achosion yn mynd ar led yn y gymuned, ond mae'r holl ymchwiliadau a mesurau rheoli angenrheidiol yn cael eu cynnal.

“Mae’r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynghori ei bod yn annhebygol iawn y gallwch ddal coronafeirws o fwyd.  Mae Coronafeirws yn salwch anadlol.  Ni ystyrir ei fod yn cael ei drosglwyddo trwy ddod i gysylltiad â deunyddiau pacio bwyd na bwyd.

“Mae olrhain cysylltiadau yn parhau yng Nghymru fel rhan o strategaeth *Profi, Monitro, Olrhain* Llywodraeth Cymru. Bydd tîm o olrheinwyr cysylltiadau yn cysylltu ag unrhyw un sydd wedi cael prawf positif am Coronafeirws, a gofynnir am fanylion pawb y mae wedi bod mewn cysylltiad agos â nhw tra bod symptomau gyda nhw.

“Cadwch nodyn o'ch gweithgareddau er mwyn i chi allu cofio’n hawdd ble oeddech chi ar ddiwrnod penodol, ynghyd â gyda phwy yr oeddech mewn cysylltiad â nhw.

“Os gofynnir i chi hunanynysu, dylech hefyd gydymffurfio â'r gofyniad hwn er mwyn atal y feirws rhag lledaenu ymhellach.

“Mae olrheinwyr yn staff hyfforddedig a bydd yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu yn cael ei thrin yn unol â rheoliadau diogelu data ac ni fydd yn cael ei rhannu'n eang.

“Mae gwybodaeth am symptomau Coronafeirws ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru, neu gall aelodau'r cyhoedd ddefnyddio  gwiriwr symptomau GIG Cymru.

“Gall unrhyw un sydd â symptomau Coronafeirws wneud cais am becyn profi gartref trwy fynd i www.gov.wales/coronavirus, neu trwy ffonio’r gwasanaeth ffôn 119 cenedlaethol.

“Ni ddylai unrhyw un yr amheuir bod ganddo/ganddi coronafeirws fynd i bractis meddyg teulu, fferyllfa nac ysbyty. Dim ond os yw'n teimlo na all ymdopi â'i symptomau gartref, fod ei gyflwr yn gwaethygu, neu os nad yw ei symptomau’n gwella ar ôl saith niwrnod y dylai gysylltu â NHS 111.

“Peidiwch â ffonio 999 oni bai eich bod yn profi argyfwng sy’n peryglu bywyd. Peidiwch â ffonio 999 dim ond oherwydd eich bod yn aros i 111 ateb eich galwad ffôn. Rydym yn deall bod llinellau 111 yn brysur, ond bydd rhywun yn ateb eich galwad ar ôl i chi aros.

GIG CYMRU NHS WALES

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Public Health Wales